CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| Cofnodion cyfarfod 9fed o Hydref 2024 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr | | |
|---|---|---|
| **PRESENNOL** | | |
| Bethan Holding (is-gadeirydd) | Iola Owen | |
| Rhys ap Gwilym | Helen Sharp | |
| Emlyn Baylis | Nia Jones | |
| Kevin Jones | Iwan Harding | |
| Kim Jones | | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cynghorydd Beth Holding yn absenoldeb y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol, Cynghorydd Llinos Pritchard, Louise Price a Trystan Thomas. | **CLERC** |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | |
| **1.2** | Cyflwyniad gan Heddlu Gogledd Cymru Croesawyd PC Siwan Humphreys a PCO Nia Roberts i'r cyfarfod misol. Roedd swyddogion yr heddlu yn awyddus i drafod y mater o gyflwyno camerâu cylch cyfyng o fewn y pentref. Dywedodd 277 achos o droseddau a 86 achosion o wyth gymdeithasol wedi digwydd yn Llanberis o fewn y 2 flynedd diwethaf. Roedd yr heddwas wedi dadansoddi'r ystadegau ac roedd yn gallu dangos ar gynllun lle'r oedd y mwyafrif wedi cymryd lle. Nid yw'r heddlu yn gallu bod yn bresennol pob dydd a thrwy'r dydd felly mae cyflwyno camerâu ar y stryd yn declyn sydd yn gallu eu cynorthwyo i ddal y tramgwyddwyr. Mae Cyngor Gwynedd (Partneriaeth Cymunedau) a'r Heddlu o'r farn byddai cyflwyno camerâu o fudd i'r ardal ond yn anffodus nid oes cyllid ar gael ar gyfer eu prynu. Rhagwelir bod angen 15 camera ar gost o £40,000. Mae polion goleuadau sy'n bodoli o fewn y pentref yn addas ar gyfer gosod y camerâu. Bydd angen cael lleoliad ar gyfer yr hwb - Y Cyngor i wneud cais i Bwyllgor y Ganolfan os fydd yn bosib gosod yr hwn yn y Ganolfan. Bydd angen dod o hyd i grantiau ar gyfer gosod y camerâu. Bydd y Clerc a'r heddweision yn gweithredu a'i gilydd i ddod o hyd i'r grantiau. Y Clerc i wneud ymgynghoriad a National Grid a First Hydro. Yr heddwas i edrych i mewn os oes cyllid i gael oddi wrth gronfa Comisiynydd yr Heddlu. Diolchwyd i'r ddwy heddwas am eu hymweliad. | **Clerc** |
| **I.3** | Ultra Trail - daeth cyfarwyddwr yr achlysur Hayden Arrowsmith i ymweld â'r Cyngor Cymuned er mwyn cyflwyno ei hun ac i ddangos ei fod eisiau cyd-weithio er budd y gymuned. Dywedodd Mr Arrowsmith ei fod eisiau sicrhau bod budd tymor hir i'r pentref o'r achlysur. Bydd yr achlysur yn 2025 yn digwydd ar y 16 o Fai wythnos wedi'r Ŵyl fwyd yng Nghaernarfon. Mae yn gobeithio trefnu teithiau bws o'r Orsaf Rheilffordd ym Mangor er | |

| | | |
|---|---|---|
| | mwyn trio lleihau'r effaith a'r Lanberis. Fe drafodwyd Glyn Rhonwy fel man parcio a'r diffyg o dderbyn cadarnhad cael defnydd lleoliad gan Gyngor Gwynedd. Mae pentref yr Ultra Trail yn gyfle arbennig i fusnesau'r pentref a'r ardal gyfagos i godi stondin. Mae trefnwyd yn awyddus i gysylltu â gwirfoddolwyr lleol - dywedodd y Cyngor y byddent yn rhoi gwybodaeth i gyrff a fyddai yn gallu helpu. Maent hefyd eisiau cychwyn rhaglen llysgenhadon o Lanberis er mwyn ddod yn gynrychiolwyr lleol ac yn wyneb lleol i'r achlysur. Dywedodd y cynghorwyr y byddent yn trio dod o hyd i bobl a fyddai efallai gyda diddordeb | |
| **1.4** | Sul y Cofio - mae trefniadau wedi ei gwneud ar gyfer y digwyddiad. Angen hysbysu'r digwyddiad ar hysbysfyrddau'r Cyngor, y Wefan, Facebook ac Eco'r Wyddfa. Y Clerc i archebu. | **CLERC** |
| **1.5** | Is-ddeddfau - dywedodd y Cynghorydd Rhys ap Gwilym bod ymateb Gyngor Gwynedd ar gyfer gorfodaeth parcio dros nos mewn cilfannau yn dangos yr unig ford i daclo'r broblem i'w i'r Cyngor Gymuned gyflwyno is-ddeddfau. Y Mater hwn i fod yn destun trafodaeth yng nghyfarfodydd nesaf y Cyngor. | |
| **1.6** | Stad y Goron - dywedodd y Cynghorydd Rhys ap Gwilym bod Cyngor Gwynedd ddim am dalu taliadau anfoesol i Stad y Goron ar gyfer yr hawl i gael mynedfa i lannau ei hun, cynigiodd i anfon llythyr o gefnogaeth, fe ategwyd y cynnig a dangoswyd bod y Cyngor yn gytûn. Y Clerc i anfon at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd i ddangos cefnogaeth. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| **3.1** | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Medi 2024 a'u derbyn. | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Medi 2024. | |
| **4.2** | Bin sbwriel Cae Chware Lan Llyn - dal i ddisgwyl i Gyngor Gwynedd gyflwyno bin. Hefyd dywedodd y Clerc bydd biniau yn cael eu cyflwyno yn yr ardal fel rhan o'r gwelliannau Safle Treftadaeth Llechi'r Byd. | |
| **4.3** | Cerflun Stryd/Coffa Chwarelwyr - dywedodd y Clerc bod cyfarfod wedi bod ynglŷn â'r cerflun. Roedd lleoliad arfaethedig wedi ei benderfynu sef yr ardal ger cyffordd Stryd Fawr a'r Ffordd osgoi. Bydd y Cerflun oddeutu 4.6 metr o uchel ac o ganlyniad bydd angen hawl cynllunio. Gobeithir derbyn yr hawl o fewn 8 wythnos ar ôl ymgynghoriad statudol ac ystyriaethau ymateb yr ymgynghoriad. Yn y cyfamser mae angen ymateb y Cyngor a phobol gyfagos cyn y cais cynllunio. Penderfynodd y Cyngor i gefnogi'r cais. Dywedodd y Clerc hefyd ei bod wedi gwneud | **CLERC** |

CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| | | |
|---|---|---|
| | ymholiadau a Zurich yswirwyr y Cyngor a'u bod nhw angen gweld y cais cynllunio cyn gwneud penderfyniad terfynol roeddynt yn dweud maent yn yswirio cerfluniau o'r math ond efallai gydag amodau dibynnu ar y strwythur a.y.b. Fel rhan o'r cais cynllunio mae rhaid dangos bod y Cyngor yn barod i gyflwyno mesurau i leihau effaith y cerflun ar yr amgylchfyd. Penderfynwyd byddai'r Cyngor yn cyflwyno bocsys ystlumod ac adran ar goed cyfagos. Pan gwblheir y cerflun mae angen i'r Cyngor fabwysiadau'r cerflun fel ased. Dangosodd Y Cyngor gytundeb i wneud hyn. | |
| **4.4** | Panel HBO - cyfnod derbyn ceisiadau yn parhau yn agored nes Rhagfyr 1af 2024. | **CLERC** |
| **4.5** | Campfa Awyr Agored - mae'r cyngor wedi bod yn llwyddiant yn eu cais am grant mewn egwyddor. Y Clerc i symud ymlaen i gael gwybodaeth bellach at Cyngor Gwynedd cyn gall y gwaith fynd yn ei flaen. | **CLERC** |
| **4.6** | Menter/Partneriaeth Llanberis Partneriaeth Dyffryn Peris - gobeithir cynnal cyfarfod ar gyfer cymdeithasau a chyrff o fewn y gymuned i drafod creu partneriaeth ar ddechrau'r flwyddyn newydd. | **RhaG/CLERC** |
| **4.7** | Toiledau - eglurodd y clerc bod dim gwybodaeth na thystiolaeth bod y Cyngor yn derbyn 10% o elw oddi a'r maes parcio Cyngor Gwynedd a'i fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer costau'r toiledau. Mae anfoneb o £12000 wedi ei dderbyn eleni. £6000 oedd yr anfoneb y llynedd. Trafodwyd y mater. Penderfynwyd bod y Cyngor yn talu fel y llynedd £6000 oherwydd nid oedd rhybudd gan Gyngor Gwynedd nad oedd disgownt eleni. | **CLERC** |
| **4.8** | Defaid a chwynion parhaus - dywedodd y Clerc ei bod wedi gwneud ymholiadau ynglŷn â sut i ddelio a'r broblem yma. Roedd wedi bod mewn cyswllt ac Undeb y Ffermwyr, Gweinyddiaeth Amaeth a Chyngor Gwynedd. Mae yn disgwyl galwad gan swydd o Safonau Masnach i'w ffonio yn ôl. O'r hyn sydd wedi ei ddysgu yw bod modd cadw'r defaid am 14 diwrnod, hysbysu'r ffermwyr bod y defaid wedi eu cadw ac c os nad ydynt yn cael eu casglu o fewn y cyfnod penodedig mae hawl gan y Cyngor wedyn ei gwerthu. Yn anffodus nid yw hyn yn ymarferol i'r Cyngor. Mae tystiolaeth i ddangos bod y broblem yma yn y pentref ers y 1920au. | |
| **4.9** | Waliau fyny i'r bwlch - dim ymateb gan y Parc Cenedlaethol. Priffyrdd wedi gofyn am archwiliad gan yr arolygydd ffordd. | |
| **4.10** | Gwersylla mewn mannau anaddas - dim ymateb wedi bod gan Cadw. | |
| **5.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| **5.1** | Dim gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn i | **CLERC** |
| **6.0** | **Y FYNWENT** | |

| | | |
|---|---|---|
| **6.1** | Cyflwynwyd dyluniad arwydd ar gyfer y fynwent un mewn glas a gwyn a'r llall mewn gwyn a du. Penderfynwyd ar y Glas a Du | **CLERC** |
| **6.2** | Nid yw pwyllgor wedi cyfarfod er mwyn ystyried rheolau'r fynwent. Angen i'r cadeirydd drefnu dyddiad. | **GTE** |
| **7.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | Dim | |
| **8.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL** | |
| **8.1** | Fe drafodwyd y coed Nadolig ar gyfer eleni. Mae archeb wedi ei wneud ar gyfer coeden 15 troedfedd i Nant Peris ag un 25 troedfedd i Lanberis. Mae angen gwneud twll pwrpasol ar gyfer coeden yn y Nant. Y Clerc i drefnu contractwr. Angen dau set o oleuadau ychwanegol ar gyfer eleni. Y pwyllgor i weithredu ar hyn. | |
| **9.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| | Dim Adroddiad | |
| | **Daeth y cyfarfod i ben am 9 yn y r hwyr.** | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad : 13/11/24** |